# Plant Ddoe



## Yr Alban, 1856

## Castiau'r Castell



© BBC

# Y STORI

Mae'r dirgelwch wedi ei leoli yn 1856 yng Nghastell Murray. Mae gemwaith ac eitemau bach eraill wedi mynd ar goll.

Chwiliwch y pedwar lleoliad yng Nghastell Murray ac edrychwch ar y cliwiau er mwyn datrys y dirgelwch

# PARLWR



Roedd gan blasdai Oes Fictoria nifer o stafelloedd ond y ffefryn yn aml oedd y parlwr. Hwn oedd canolbwynt bywyd teuluol, ac yma byddai'r oedolion a'u hymwelwyr yn treulio eu nosweithiau.

Byddai'r Arglwyddes Murray wedi dewis y dodrefn a'r addurniadau er mwyn dangos ei chyfoeth a'i chwaeth. Mae'r stafell yn olau ac yn gain, yn wahanol i stafelloedd tywyll, gorlawn diweddarach Oes Fictoria.

# EITEMAU



Roedd gan yr Arglwydd a'r Arglwyddes Murray 13 o weision yn 1851. Er mwyn galw ar un o'r gweision bydden nhw wedi defnyddio llinyn cloch. Roedd un ym mhob stafell - wedi ei gysylltu â gwifren hir at res o glychau yn stafell y gweision. Pan oedd cloch yn canu roedd y gweision yn gwybod i ba stafell i fynd.





© BBC


Prif ddyletswydd morwyn fel Kate oedd gofalu am y tanau oedd yn cadw'r tŷ yn gynnes. Roedd disgwyl i'r morwynion glirio'r lludw a rhoi sglein ar y grât, y ffender neu'r heyrn tân nes eu bod yn disgleirio. Byddai'n rhaid i'r forwyn lenwi'r gist lo (oedd yn dal digon o lo i gadw'r tân i losgi am rhai oriau.) Roedd hyn yn waith caled gan bod angen cario glo fyny o'r selar.



Roedd cloc da yn sefyll ar ganol y silff ben tân yn llawer o blastai Oes Fictoria. Roedd cadw amser yn rhan bwysig o redeg cartref mawr. Cyn i'r rheilffyrdd gysylltu prif drefi gyda'i gilydd, roedd gan lefydd eu hamser lleol eu hunain, felly roedd Bryste, er enghraifft, 20 munud ar ôl Llundain. Wrth i'r rhwydwaith dyfu penderfynodd cwmnïau rheilffyrdd ddefnyddio amser Llundain. Erbyn 1855 roedd bron pob cloc ym Mhrydain yn dangos amser Greenwich. Mae allwedd y cloc ar goll.



Roedd golau'r haul yn achosi i garpedi a dodrefn golli lliw yn gyflym yn Oes Fictoria, felly roedd llenni a chaeadau yn cael eu rhoi dros ffenestri. Roedd ffenestri yn cael eu gweld fel bygythiad i iechyd a glanweithdra. Roedd meddygon yn rhybuddio bod ffenestri agored yn achosi awelon a heintiau peryglus. Roedd carpedi yn ddrud iawn yn Oes Fictoria. Byddai'r Arglwyddes Murray wedi bod yn falch iawn o'r carped a brynodd o'r Arddangosfa Fawr yn Llundain.



Gwelodd plant Oes Fictoria fel Isabella newidiadau mewn cyfathrebu oedd mor bwysig â'r rhyngrwyd heddiw. Yn 1840 sefydlodd Rowland Hill y 'post ceiniog'. Roedd hi'n bosib anfon llythyrau i unrhyw le am un hen geiniog (1d). I ddangos eu bod wedi talu, roedd anfonwyr yn gludo stamp ceiniog ar yr amlen. Roedd y rhan fwyaf o lythyrau yn cael eu hanfon ar drenau a'u dosbarthu tra'n symud. Erbyn yr 1850au roedd llawer o lythyrau'n cael eu dosbarthu erbyn y diwrnod wedyn.



© BBC

# TYSTION



“Pam oedd yn rhaid iddyn nhw anfon Andrew i ffwrdd i'r ysgol breswyl ofnadwy yna? Does gen i neb i chwarae â nhw nawr a dw i'n teimlo'n unig iawn. Yr unig beth fedrai wneud ydy ysgrifennu at Andrew. Yn y llythyr ysgrifennais heddiw fe ddwedais: "Rwyf wedi casglu ychydig o anrhegion i ti o'r tŷ, er mwyn i ti gael ein cofio ni i gyd. Fe wnai roi un yn amlen bob tro dw i'n ysgrifennu atat ti. Efallai fyddi di'n gallu eu gwerthu nhw, neu eu ffeirio nhw gyda'r bechgyn eraill." Ambell waith, dw i'n meddwl fy mod yn genfigennus o fy mrawd. O leiaf fe fydd yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cael anturiaethau. Dw i'n gorfod aros yma a chael fy nysgu i fod yn arglwyddes ifanc raslon. Mae Kate y forwyn newydd yn ddiddorol iawn. Mae'n dod o wyrcws yn Newcastle. Cafodd ei gadael gan ei rhieni pan oedd yn fabi a'i chymryd i'r wyrcws.

Mae gan Kate synnwyr hwyl arbennig. Mae'n tynnu ei thafod arna i ac yn chwarae gemau pan does neb yn gwylio. Mae hi'n lletchwith ofnadwy ac yn taro pethau drosodd o hyd. Mae Mrs. Campbell, Meistres y Tŷ, wedi rhoi stŵr iddi lawer gwaith.

Mae pethau'n parhau i ddiflannu ac mae pawb mor amheus. Mae Mama'n credu efallai mai Kate yw'r lleidr sydd wedi dwyn cadwyn oriawr Tada a'i chlustdlws berl. Mae hi wedi sylwi hefyd bod rhai o fy mhethau i ar goll, fel y tebot copor oddi ar fy ngrât cegin.

Dw i'n gwybod fod Kate yn ferch onest a dw i am brofi Mama yn anghywir. Dw i'n gobeithio efallai y gall Kate gael ei hyfforddi un diwrnod i fod yn llawforwyn i mi. Bydden ni'n cael cymaint o hwyl.
Am lais crawclyd rhyfedd. Tybed pwy sydd yna? Mae'n swnio fel bod y sŵn yn dod o'r to.”

# Y STORI

Parlwr: Mae Isabella yn anfon eitemau o’r tŷ at ei brawd. Mae allwedd cloc y silff ben tân wedi mynd ar goll, mae’r ffenest wedi cael ei gadael ar agor ac mae llwch glo ar y llawr.



© BBC

# YSGOLDY



Dyma'r ysgoldy yng Nghastell Murray. Mae desgiau, bwrdd du a llyfrgell yma.

Roedd brodyr a chwiorydd o deuluoedd cyfoethog yn cael eu dysgu gyda'i gilydd pan oedden nhw'n fach. Roedd bechgyn yn gadael cartref yn saith oed i fynd i ysgol breswyl a merched yn aros gartref i gael eu dysgu gan eu hathrawesau cartref.

Roedd disgwyl i ferched bonheddig ddod yn wragedd da. Yn ogystal â darllen ac ysgrifennu, roedden nhw'n gorfod dysgu sgiliau cymdeithasol fel tynnu llun, dawnsio, marchogaeth a cherddoriaeth.

# EITEMAU



Roedd plant yn treulio oriau lawer yn dysgu ysgrifennu mewn arddull oedd yn llifo o'r enw copor-plêt. Roedden nhw'n copïo'r un llinellau o werslyfrau drosodd a throsodd, gan sicrhau bod siâp pob llythyren yn gywir. Roedd nibiau dur ar beniau ac roedd yn rhaid eu dipio mewn inc ar ôl ychydig o eiriau. Roedd hi'n hawdd gwneud blotiau a difetha gair.



Roedd plant yn dysgu daearyddiaeth trwy ddefnyddio globau fel y rhai yma. Byddai llawer o'r glôb yn cael ei farcio mewn coch er mwyn dangos twf yr Ymerodraeth Brydeinig. Yn yr 1850au Prydain oedd cenedl fasnachol fwya'r byd ac roedd yn defnyddio'i chyfoeth er mwyn concro gwledydd eraill.



© BBC



Roedd y rhan fwyaf o ferched yn dysgu gwnïo pan oedden nhw'n bedair neu'n bump. Roedd merched tlawd angen gwybod sut i wneud neu drwsio dillad ar gyfer eu teuluoedd pan fyddai'r amser yn dod. Gallen nhw hyd yn oed ennill bywoliaeth fel gwniadwraig.

Roedd merched o deuluoedd cyfoethog yn cael eu hannog i wneud 'gwaith ffansi' tebyg i'r sampler yma. Roedd darnau fel hyn i fod i ddangos chwaeth a thalent yn hytrach na bod o unrhyw ddefnydd ymarferol



Roedd pobl Oes Fictoria yn dda am gasglu a dosbarthu anifeiliaid, adar a phryfed. Roedd llyfrau ar hanes naturiol, oedd weithiau'n cynnwys lluniau lliw hyfryd, yn gwerthu'n dda. Dyma dudalen o lyfr am aderyn o'r enw'r Corvus Monedula - sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel y jac-do. Mae'r jac-do yn wych am ddynwared adar eraill a dwyn, yn enwedig wyau neu bethau lliwgar. Mae'n un o'r adar mwyaf clyfar, a gydag amynedd mae'n bosib eu dofi a'u dysgu i siarad.




Rydych chi'n gallu gweld o'r gerddoriaeth ddalen yma fod rhywun yn dysgu chwarae'r piano. Isabella siŵr o fod. Roedd chwarae offeryn yn dda yn cael ei ystyried yn hanfodol i ferch ifanc. Weithiau byddai gofyn i Isabella chwarae'r piano cyngerdd yn y parlwr er mwyn difyrru ei rhieni a gwesteion y teulu. Byddai casgliad o gerddoriaeth ddalen yn cael ei gadw yn stôl y piano fel arfer.

## TYSTION





© BBC

"Rydw i'n ffodus o fy swydd yma yng Nghastell Murray. Mae'r Arglwyddes Murray yn garedig ac mae fy nghyflog yn hael - £30 y flwyddyn, er bod yn rhaid i mi dalu £5 am fy nghostau golchi.

Yn anffodus, mae Miss Isabella wedi bod yn achosi pryder i mi yn ddiweddar. Dydy hi ddim yr un fath ers i'w brawd adael. Roedd ei hymarfer llawysgrifen heddiw yn wael iawn ac roedd hi'n chwarae'r piano yn fecanyddol a di-fflach. Beth wna i â hi?

Mae Kate, y forwyn newydd, yn parhau i drethu fy amynedd. Fe wnes i ofyn iddi lenwi'r potiau inc, a gweld wedyn ei bod wedi gollwng inc dros y llawr, heb ei lanhau yn iawn. Mae gan Kate synnwyr hwyl da ond dydy hi ddim yn gwybod ei lle o gwbl. Er iddi gael ei rhybuddio ganwaith mae hi'n parhau i siarad â Miss Isabella a'i difyrru pan mae'n meddwl bod neb yn gwylio.

Yn anffodus mae gen i amheuon gwaeth hefyd. Mae fy sêl-fodrwy aur wedi mynd ar goll. Fe wnes i ei gadael ar silff ffenest yr ysgoldy ddoe. Pan es i'w nôl bore 'ma roedd fy modrwy wedi mynd.

Allai Kate fod yn lleidr? Byddwn yn casáu ei gweld hi'n cael ei danfon yn ôl i'r wyrcws dan gwmwl.

O, mae'r ferch ofnadwy wedi gadael y ffenest ar agor eto. Mae'n rhaid ei bod hi wedi cael ei geni mewn cae! Gwell i mi fynd i gau'r ffenest cyn i Miss Isabella ddal annwyd.

## Y STORI

Parlwr: Mae Isabella yn danfon eitemau o'r tŷ at ei brawd. Mae allwedd cloc y silff ben tân wedi mynd ar goll, mae'r ffenest wedi cael ei gadael ar agor ac mae llwch glo ar y llawr.

Ysgoldy: Mae'r Athrawes Gartref wedi colli ei sêl-fodrwy aur, ac mae hi'n amau Kate. Mae ffenest arall wedi cael ei gadael ar agor.

## MEITHRINFA





© BBC

Dyma'r feithrinfa yng Nghastell Murray. Mewn cartrefi cyfoethog roedd y plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gyda mamaeth neu nani. Roedden nhw'n cael eu holl brydau bwyd yn y feithrinfa ac yn mynd am dro ar ddyddiau braf. Bob nos bydden nhw'n gwisgo'u dillad mwyaf crand er mwyn treulio awr arbennig gyda'u rhieni.

Roedd gan feithrinfeydd rai nodweddion diogelwch arbennig, fel bariau ar y ffenestri a sgriniau tân uchel, diogel.

## EITEMAU



Mae'r ceffyl siglo yma'n fawr iawn a dim ond teuluoedd cyfoethog oedd yn gallu fforddio un o'r maint yma. Fe gostiodd tua'r un faint â chyflog wythnos un o weithwyr yr ystâd. Yn Oes Fictoria roedd teganau'n cael eu gwneud mewn ffatrïoedd a gweithdai. Roedd hyn yn golygu bod teuluoedd cyffredin yn gallu fforddio eu prynu. Byddai teganau newydd fel milwyr plwm wedi eu paentio, anifeiliaid clocwaith ac organau tro wedi eu weindio i'w gweld mewn stafelloedd gwely ar draws y wlad.



Diwrnod gorffwys oedd Dydd Sul. Roedd parciau, amgueddfeydd a theatrau ar gau, ac roedd teuluoedd cyfoethog yn mynd i'r eglwys. Roedd bwyd yn cael ei baratoi o flaen llaw a'i fwyta'n oer. Roedd gweision yn cael amser rhydd i addoli neu ymweld â'u teuluoedd. Roedd plant yn darllen straeon o'r Beibl neu'n chwarae gyda theganau dydd Sul arbennig. Dyma set o ffigyrau Arch Noa lliwgar.



Doedd merched ddim yn cael eu hannog i chwarae criced na phêl-droed. Doedd gwibio o gwmpas yn chwysu a baeddu ddim yn cael ei ystyried yn beth bonheddig i ferch ei wneud. Ond roedden nhw'n gallu curo'r bechgyn wrth chwarae croquet. Cafodd y gêm ei chyflwyno i Brydain yn ystod Arddangosfa Fawr 1851 yn Crystal Palace. Roedd yn hynod boblogaidd gyda merched gan mai dyma'r gêm gyntaf y gallai pawb ei chwarae yn gyfartal.



© BBC



Roedd rhai plant yn Oes Fictoria yn dwlu ar y gaeaf am ei fod yn golygu un peth - sglefrio ar iâ! A dim y cyfoethog yn unig oedd yn ei fwynhau. Roedd pyllau a llynnoedd wedi rhewi mewn dinasoedd yn aml yn orlawn o sglefrwyr iâ â thrwynau oer a bochau coch llachar!

Gyda'r tyrfaoedd daeth cyfle i wneud arian. Roedd delwyr arbennig yn llogi parau o esgidiau sglefrio am chwe cheiniog yr awr tra bod ysgubwyr yn cadw'r iâ yn llyfn, yn y gobaith o gael cildwrn.



Pos pren â dwy ochr yw'r gwrthrych yma. Pan mae'r holl ddarnau yn cael eu rhoi yn y drefn gywir mae un ochr yn dangos brenhinoedd a breninesau ar hyd yr oesoedd a'r ochr arall yn llunio map o Ewrop. Roedd i fod i ddysgu hanes a daearyddiaeth i blant Oes Fictoria.

Mae'n bos syml. Mae'r darnau pren yn crymu ychydig bach, yn hytrach na chyd-gloi. Chafodd posau jig-sô, gyda'u darnau cymhleth, ddim eu dyfeisio nes yr 1870au.

## *TYSTION*



"'Wyrcws' - 'na beth ma'r gweision eraill yn fy ngalw i. Achos i fi gael fy magu mewn wyrcws yn Newcastle a'm hanfon yma i Gastell Murray i weithio fel morwyn.

Dw i'n codi am chwech bob bore, yn sgubo a dwstio'r parlwr, y 'stafell fwyta, y llyfrgell a gweddill y tŷ. Yr holl gratiau 'na i'w glanhau a thanau i'w cynnau...A dw i ddim yn stopio nes bod y teulu yn y gwely neu wedi setlo am y nos - fel arfer ar ôl unarddeg o'r gloch.

Byddwn i'n hoffi petae gweddill y gweision yn stopio pigo arna i. Ma' nhw'n dweud mai'r unig reswm dw i 'ma yw achos bod yr Arglwyddes Murray yn Gristion da - yn gwneud ei dyletswydd i



© BBC

helpu'r tlawd. Y cnafon sbeitlyd.

Ma' nhw'n genfigennus. Ma' nhw'n gwybod bod Miss Isabella yn fy hoffi i. Dw i wedi cael stŵr am siarad gyda hi, ond dw i yn eu hanwybyddu nhw. Druan fach. Falle bod meithrinfa grand ac ysgoldy ei hun gyda hi, ond mae'n unig.

Roedd Isabella'n poeni bore 'ma achos bod rhai o'r anifeiliaid o'r Arch wedi mynd ar goll. Pethau bach pren hyfryd y'n nhw - wedi eu paentio'n llachar i gyd. Dw i erioed wedi cael teganau fel yna yn fy holl fywyd - dim ond fy noli glwt fach.

O feddwl am y peth, dw i'n siŵr i fi weld un yn gorwedd y tu allan, fel petae wedi cael ei ollwng o'r ffenestr.
Dw i'n meddwl mod i'n gwybod pwy sydd wedi eu dwyn nhw a sut i brofi hynny hefyd! Ysgoldy Isabella falle!"

## Y STORI

Parlwr: Mae Isabella yn danfon eitemau o'r tŷ at ei brawd. Mae allwedd cloc y silff ben tân wedi mynd ar goll, mae'r ffenest wedi cael ei gadael ar agor ac mae llwch glo ar y llawr.

Ysgoldy: Mae'r Athrawes Gartref wedi colli ei sêl-fodrwy aur, ac mae hi'n amau Kate. Mae ffenest arall wedi cael ei gadael ar agor.

Meithrinfa: Mae anifeiliaid o set Arch Noa Isabella ar goll. Pam fyddai rhywun yn dwyn eitemau mor ddiwerth? Mae gan Kate ei amheuon ar ôl dod o hyd i degan ar y llawr o dan ffenestr.

## CEGIN



Yn Oes Fictoria roedd y coginio'n cael ei wneud yn y gegin. Roedd gwaith brwnt fel crafu llysiau yn cael ei wneud yn y gegin gefn a'r golchi llestri yn y pantri.

Roedd cogydd da yn allweddol ac, oni bai am y bwtler, dyma'r gwas a oedd yn cael ei dalu fwyaf – cymaint â £70 y flwyddyn. Dynes oedd y cogydd fel arfer ac roedd ganddi ei morwynion ei hun yn y gegin a'r gegin gefn.



© BBC

# EITEMAU




Tegan plentyn yw'r grât cegin fechan yma, ond roedd y grât go iawn yng nghegin Castell Murray yn ffwrn, boeler dŵr a phentan mewn un. Roedd hyn yn llawer gwell na choginio dros dân agored, gyda pharddu'n disgyn i'r bwyd. Roedd gratiau cegin yn cael eu gwresogi gan olosg (glo o ryw fath) yn llosgi a doedd dim modd rheoli'r tymheredd. Mae pluen ddu ar bwys y grât.



Roedd llaeth yn dod bob dydd i'r llaethdy yng Nghastell Murray. Doedd pobl mewn dinasoedd yn Oes Fictoria ddim mor lwcus. Roedd gwartheg yn cael eu cadw mewn stalau budr ac roedd y llaeth yn aml wedi ei heintio cyn cael ei werthu. Y llaethdy oedd y lle oeraf i gadw llaeth. Roedd peth ohono'n cael ei ddefnyddio i goginio a'r gweddill yn cael ei gorddi i wneud menyn - neu ei adael i suro a'i droi'n gaws.



Roedd y golch wythnosol mewn plasdy gwledig yn dasg anferthol i forwynion y golchdy, druan. Yn gyntaf roedd yn rhaid golchi dillad y teulu, yna rhai'r gweision ac yna'r dillad gwely a'r llieiniau bwrdd. Roedd y golchi'n cael ei wneud yn y golchdy gwlyb. Yn hwn roedd berwyr anferth i gynhesu hyd at 50 galwyn o ddŵr. Yn y golchdy sych roedd stôf i gynhesu'r haearnau a rhestlau, yr oedd modd eu halio i fyny i'r to, i sychu dillad.



Roedd y mowld siâp asbaragws yma'n cael ei ddefnyddio i wneud dŵr rhew - hynny yw dŵr wedi rhewi â lliw a blas wedi eu hychwanegu. Doedd gan bobl Oes Fictoria ddim rhewgelloedd ond roedd gan deuluoedd cyfoethog rewdai. Roedd rhew yn cael ei dorri o byllau yn y gaeaf a'i gadw yn y siambrau tanddaearol hyn. Roedden nhw'n edrych fel ffynnon wedi ei leinio â brics



© BBC

ac roedd cyntedd yn arwain yno. Roedd y rhew yn para trwy'r haf i gyd ac yn cael ei ddefnyddio i wneud pwdinau a diodydd egsotig.



Roedd y torrwr a malwr perlysiau yma'n cael ei ddefnyddio i baratoi perlysiau ffresh o ardd y gegin. Roedd wal uchel o amgylch gardd y gegin i roi cysgod. Roedd y waliau'n dal gwres yr haul fel bod coed ffrwythau'n gallu tyfu yn eu herbyn. Y tu mewn roedd rhesi o welyau blodau a llysiau. Roedd tai gwydr mawr wedi eu gwresogi yno hefyd, fel bod cnydau egsotig - ffigys, grawnwin a phinafal hyd yn oed - yn gallu tyfu trwy'r flwyddyn.

## TYSTION



“Am strach yn y gegin! Fe wnes i alw â'r blodau ffresh i Cwc ac fe weiddodd arna i am fod fy 'sgidie i'n frwnt. "Beth wyt ti'n meddwl ydw i?" gweiddais i 'nôl arni, "Llawforwyn? Wrth gwrs bod fy 'sgidie i'n frwnt, garddwr ydw i."

Ryn ni'n aml yn dadlau, 'rhen Cwc a fi. Ryn ni wedi bod yn elynion pennaf ers blynyddoedd lawer. Ond dw i'n meddwl ei bod hi'n gallu bod yn hen gnawes gyda'r staff iau. Y ferch 'na o'r wyrcws er enghraifft - Kate.

Ddes i ar ei thraws hi'n llefen ar bwys drws y gegin yn ddiweddar. Roedd hi wedi cael pryd o dafod am losgi lliain sychu llestri gyda haearn smwddio, ac wedi cael y bai am golli blawd dros fwrdd y gegin. Dw i wedi bod yn clywed straeon rhyfedd amdani. Ynglŷn â sut mae pethau bach wedi bod yn mynd ar goll ar hyd y tŷ, sut mae'r Arglwyddes Murray yn poeni a sut y gallai Kate fod yn lleidr.

Wel, dw i ddim yn siŵr am hynny, ma' Kate yn edrych yn ferch ddigon da i fi. Dw i'n meddwl y byddai unrhyw ferch o'r wyrcws mor falch o fod 'ma, byddai hi ddim yn dwyn wrth bobol sydd wedi gwneud eu dyletswydd Cristnogol â hi.

A dw i'n meddwl mod i'n gwybod beth ddigwyddodd i'r blawd 'na. Welodd Cwc 'mo'r olion crafangau ynddo. Dyw hi ddim yn rhoi ei phen allan o'r gegin, 'na'i phroblem hi. Ddim yn gwybod y gwahaniaeth rhwng aderyn a phili pala. Dw i'n meddwl bod y



© BBC

gegin wedi cael ymweliad gan ladron penffordd - gydag adenydd!"

## Y STORI

Parlwr: Mae Isabella yn danfon eitemau o'r tŷ at ei brawd. Mae allwedd cloc y silff ben tân wedi mynd ar goll, mae'r ffenest wedi cael ei gadael ar agor ac mae llwch glo ar y llawr.

Ysgoldy: Mae'r Athrawes Gartref wedi colli ei sêl-fodrwy aur, ac mae hi'n amau Kate. Mae ffenest arall wedi cael ei gadael ar agor.

Meithrinfa: Mae anifeiliaid o set Arch Noa Isabella ar goll. Pam fyddai rhywun yn dwyn eitemau mor ddiwerth? Mae gan Kate ei amheuon ar ôl dod o hyd i degan ar y llawr o dan ffenestr.

Cegin: Mae mwy o eitemau wedi mynd ar goll o'r gegin. Mae sosban gopor fechan ar goll o degan grât cegin Isabella. Mae'r garddwr wedi sylwi ar ôl crafanc aderyn yn y blawd sydd wedi ei ollwng.

## BARN YR ARBENIGWR

O edrych yn ôl ar y lleoliadau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tresbaswr dirgel wedi dwyn yr eitemau.

Ond *Pwy*, neu ddyliwn i ddweud *Beth*, fyddai'n dwyn eitemau mor ddiwerth?

O ddefnyddio'r cliwiau yma, roeddwn i'n gallu datrys y dirgelwch.

A. Dyddiadur Isabella. A wnaethoch chi ddarllen y llinellau olaf ynglŷn â chlywed llais crawclyd?
B. Mae'r dudalen o'r llyfr am adar yn yr ysgoldy yn dweud mwy wrthym am y troseddwr...clyfar iawn, adnabyddus am ddwyn, dynwaredwyr da. Canu cloch?
C. Yr eitemau coll o degan Arch Noa Isabella. Hollol ddiwerth ond llachar iawn!
CH. Dyddiadur y garddwr. Roedd rhywbeth am ei eiriau a wnaeth i mi feddwl…

> *"A dw i'n meddwl mod i'n gwybod beth ddigwyddodd i'r blawd 'na. Welodd Cwc 'mo'r olion crafangau ynddo. Dydy hi ddim yn 'nabod y gwahaniaeth rhwng aderyn a phili pala. Dw i'n meddwl bod y gegin wedi cael ymweliad gan ladron penffordd – gydag adenydd!"*

Yna mae'r holl ffenestri agored yna, olion crafangau yn y glo a'r blawd, a'r bluen ddu…

Mae'r aros drosodd, dewch i ni gael gweld beth ddigwyddodd,



© BBC

fwy na thebyg.



Prif Arddwr: Cofio'r adar a wnaeth y llanast gyda'r blawd yn y gegin? Gwnaeth hynny i mi feddwl. Roeddwn i wedi sylwi ar jac-do ifanc yn fy ngwylio gyda'i lygaid llwyd, treiddgar. Fe wnaeth e ddwyn un o'r tags planhigion copor o'r tŷ gwydr.



Fe wnes i ei wylio'n hedfan yn ôl i nyth ar simnai'r gegin – gyda'r jac-dos eraill yn gwneud sŵn 'Corr' arno, fel arwr yn dychwelyd. Felly meddyliais i, tybed beth arall wyt ti wedi helpu dy hun iddo – gwell i mi gael golwg.



Rhoddodd Kate a fi yr ysgolion yn erbyn y wal ac fe ddringodd hi ar ben y to. Mae'r ferch 'na'n union fel cath. Rhoddodd y nyth o dan ei braich a'i chario i lawr. Ac mae'n siŵr eich bod chi wedi dyfalu'n barod beth welon ni ynddi – cist drysor go iawn.



Kate: Dw i mor falch ein bod ni wedi dod o hyd i'r gemwaith coll, hyd yn oed os oedd rhaid i fi straffaglu ar hyd y to. Dw i'n gwybod bod rhai o'r gweision eraill yn credu mai fi oedd yn dwyn, ac roedd Miss Isabella yn amau hefyd. Fe wnes i ddyfalu mae'r jac-dos oedd wrthi pan welais i'r anifail 'na o'r arch yn gorwedd ar y llawr, a phan ddes i o hyd i'r llyfr ar jac-dos yn yr ysgoldy, dyna hi!



Isabella: Dw i mor falch fod Kate wedi cael ei phrofi'n ddi-euog. Dw i wedi penderfynu fy mod i am ofyn i Mama os bydd hi'n cael bod yn llawforwyn i fi - a dw i'n credu ei bod hi'n teimlo mor euog am gredu bod Kate yn lleidr fel y bydd hi'n cytuno.



© BBC